Diddyfnu Ŵyn

Mae diddyfnu ŵyn ar yr adeg gywir yn hanfodol ar gyfer iechyd y mamogiaid a'r ŵyn yn y dyfodol.

Yn ddelfrydol, dylid diddyfnu ŵyn rhwng 12 a 16 wythnos oed, ond mae dewis yr adeg iawn yn dibynnu ar y ffactorau a ganlyn:

- Tyfiant y glaswellt – os oes llai na 4cm o laswellt, mae'n golygu bod y mamogiaid a'r ŵyn yn cystadlu â'i gilydd ac felly dylid diddyfnu'r ŵyn. Ar ôl iddynt gyrraedd 8 wythnos oed, mae'r ŵyn yn cael digon o'u hegni o laswellt yn hytrach na llaeth – mae hynny hefyd yn peri mwy o gystadleuaeth.
- Cyflwr y mamogiaid a'r ŵyn – os yw'r mamogiaid yn denau ac mewn cyflwr gwael, mae'n golygu bod yr ŵyn yn cymryd eu hegni a'i bod yn annhebygol fod ganddynt gyflenwad da o laeth**.** Os ydynt mewn cyflwr gwael, bydd angen amser i wella'u cyflwr er mwyn cyrraedd BCS 3 adeg hwrdda.
- Cynnydd pwysau byw dyddiol yr ŵyn – dylai'r ŵyn fod yn ennill 200g y dydd. Os yw cynnydd pwysau byw dyddiol yr ŵyn yn llai na hyn, dylent gael eu diddyfnu.

Camau i leihau'r straen adeg diddyfnu:

- Anfonwch yr ŵyn yn ôl i'r caeau lle'r oeddynt gyda'u mamau fel eu bod yn gyfarwydd â'r mannau lle mae dŵr a chysgod
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r ŵyn yn gallu gweld eu mamau ar ôl iddynt gael eu diddyfnu
- Os oes modd, diddyfnwch yr ŵyn pan fo'r tywydd yn dda
- Peidiwch â diddyfnu'r ŵyn yn rhy gynnar – dylai'r ŵyn fod yn 8 wythnos oed o leiaf
- Naill ai symudwch y mamogiaid i dir pori gwael, rhowch nifer fawr gyda'i gilydd neu rhowch nhw ar wellt er mwyn eu hatal rhag cynhyrchu llaeth – bydd hyn yn golygu eu bod yn llai tebygol o gael mastitis. Mae hefyd yn hollbwysig eu bod yn gallu cael hyd i ddŵr.

Cyngor SCOPS adeg diddyfnu:

- Ewch i wefan SCOPS i gael y rhagolygon Nematodirws diweddaraf ar gyfer eich ardal – https://www.scops.org.uk/forecasts/nematodirus-forecast/
- Gwnewch gyfrifiad wyau ysgarthol ar yr ŵyn, a pheidiwch â rhoi moddion os nad oes raid. Os yw'r ŵyn yn cael moddion, cadwch nhw ar yr un tir pori am 4–5 niwrnod cyn eu symud i dir pori glân.